

# CWLWM TWYLL

## Gweithgaredd 4 – Gweithgaredd Dal mewn Gwe

*'Camfanteisio troseddol yw pan mae plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei cyfeillio a'u a'i cam-drin, eu manteisio, eu rhwydo a'u rheoli at ddiben troseddol'.*


Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei ecsbloetio'n droseddol, mae pethau'n mynd allan o reolaeth yn fuan iawn.

Fel yr archwiliwyd yn ystod y wers Cwlwm Twyll, roedd rhai arwyddion cynnar nad oedd pethau'n union yr hyn yr oeddent yn ymddangos.

Fel arfer mae 4 cam recriwtio i rywun ifanc: Targedu, Profiad, Bachu ac yna Dal. Gellir darlunio hyn fel gwe pryf cop. Gall plant a phobl ifanc gael eu dal yn hawdd iawn gan gam-fanteisio troseddol, weithiau heb sylweddoli.

Darllenwch y datganiadau o'r siart isod, a'u torri allan neu ysgrifennu'r datganiadau ar y we pryf cop (ar y dudalen ganlynol) ynghylch pa mor ddrwg mae'r unigolyn ifanc wedi cael eu clymu yn y we.

<b>Chwarae triwant o'r ysgol</b>	<b>Cael arian fel gwobr am ffafr fach</b>	<b>Defnyddio cyffuriau a/neu alcohol</b>
<b>Derbyn y ffôn clyfar gorau</b>	<b>Derbyn dillad newydd dynodedig</b>	<b>Mynd i ffwrdd o gartref am daith fer</b>
<b>Cynorthwyo ffrind</b>	<b>Cario cyffuriau</b>	<b>Cario cylllell</b>
<b>Canlyniadau ysgol yn dirywio</b>	<b>Gwneud ffrindiau newydd, hynach</b>	<b>Cario symiau mawr o arian i bobl eraill</b>
<b>Poeni teulu</b>	<b>Teimlo'n orbryderus ac ofnus</b>	<b>Ymosodiadau corfforol</b>
<b>Hunan-niweidio</b>	<b>Ddim yn poeni am ddim bellach</b>	<b>Derbyn negeseuon testun a galwadau ffôn o hyd</b>
<b>Cael eu harestio gan yr Heddlu</b>	<b>Bod mewn ardal newydd a rhyfedd</b>	<b>Dim ffrindiau</b>



### 1. Targeddu

Dyma pryd mae camfanteisiwr yn targedu rhywun ifanc sy'n fregus, gan leihau eu cyfleoedd o gael eu dal. Mae camfanteiswyr yn pigo eu targedau'n seiliedig ar bethau fel eich oed, cryfder neu sefyllfa.

### 2. Profiad

Y cam hwn yw lle gall camfanteisiwr geisio cael rhywun ifanc i arfer gyda'u ffordd o fyw, neu eu hyfforddi i wneud yr hyn maent yn ei wneud.

### 3. Bachu

Dyma'r cam lle gwnaiff camfanteisiwr wneud rhywun ifanc deimlo fel eu bod yn aelod o'r gang, hyd yn oed os ydynt ond yn eu camfanteisio.

### 4. Dal

Dyma pryd mae rhywun ifanc yn teimlo'n ddibynnol ar y grŵp. Efallai bod eu perthynas gyda'u camfanteisiwr yn dechrau dod yn annymunol, wrth i fwriadau neu gymeriad go iawn eu camfanteisiwr ddod i'r amlwg.

